

Arian Pawb a'i Le

Dyddiad embargo: 02/02/2018



Enw	Lleoliad	Swm a ddyfarnwyd	Crynoledb
		£3,654,410	
Gibran UK Ltd	Abertawe	£499,842	Bydd y prosiect yn darparu both cymunedol a redir ar gyfer a chan droseddwyr yn Abertawe gan ddefnyddio model 'Siop Un Alwad'. Bydd cyngor galw heibio anffurfiol, cymorth a chyngor ymarferol, cefnogaeth hyblyg gan gymheiriaid ac amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu cynnig i fuddiolwyr a bydd yn fan cyfarfod er mwyn lleihau unigrwydd. Byddant yn cynnig hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli, clybiau, nosweithiau cymdeithasol, sgiliau bywyd, cefnogaeth, cyngor a chyrsiau TG. Dros dair blynedd bydd y grant yn ariannu cyflogau, costau rhedeg y prosiect a chyfarpar.
Swansea Community Farm	Abertawe	£99,992	Bydd Fferm Gymunedol Abertawe'n cyflogi gweithiwr lles a gweithiwr cefnogi newydd ac yn defnyddio rheolwr hyfforddi presennol i gefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i wirfoddoli a gwneud hyfforddiant ar y fferm. Caiff 20 o wirfoddolwyr presennol eu hyfforddi mewn sgiliau rheoli iechyd meddwl a chefnogir 100 o wirfoddolwyr newydd pellach i ymwneud â gwirfoddoli awyr agored strwythuredig. Bydd hyn yn cynnwys gwella safle'r fferm, digwyddiadau a lledaenu negeseuon lles i'r 5,000 o ymwelwyr presennol a'r gymuned ehangach. Dros ddwy flynedd caiff y grant ei ddefnyddio i dalu cyflogau'r tri staff, costau cyffredinol a chostau rhedeg cyffredinol eraill.
Action for Elders Trust	Bro Morgannwg	£248,842	Bydd y prosiect yn gwella iechyd a lles pobl hŷn yn Y Barri a Bro Morgannwg trwy gyflwyno sesiynau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar iechyd ataliol, iechyd meddwl a symudedd. Byddant yn cyflawni hyn trwy gyflwyno tair rhaglen, pob un wedi'i rhedeg dros o leiaf dwy awr bob wythnos, dros 45 wythnos bob blwyddyn o'r prosiect. Dros dair blynedd bydd y grant yn ariannu cyflogau, marchnata, teithio a threuliau, recriwtio a chostau cyffredinol.

Arian Pawb a'i Le

Dyddiad embargo: 02/02/2018



Women Connect First	Caerdydd	£99,471	Bydd Women Connect First yn rhedeg cwrs iechyd a lles ar gyfer menywod a theuluoedd BAME i wella'u bywydau. Caiff seminarau/gweithdai eu rhedeg gyda phartneriaid allweddol ar bynciau amrywiol, cefnogaeth/cyngor iechyd a lles un i un, cyrsiau a gweithgareddau hyfforddi sy'n canolbwyntio ar fwyta a choginio iach, gweithgareddau corfforol a chwrs maethu plant 10 wythnos i famau ifainc. Dros 18 mis bydd y grant yn talu am gyflogau dau weithiwr a chostau rhedeg cysylltiedig.
Newport Women's Aid Limited	Casnewydd	£653,460	Bydd y prosiect yn cyflwyno gwasanaeth heddlu a chefnogaeth integredig ar gyfer dioddefwyr cyson cam-drin domestig a'r rhai sy'n wynebu perygl mawr ohono ar draws Gwent. Darparu cefnogaeth mewn argyfwng y tu allan i oriau a rhoi cymorth i ddioddefwyr ochr yn ochr â'r heddlu. Bydd y prosiect yn atal trais a cham-drin rhag gwaethygu, cynyddu cyfranogiad mewn gwasanaethau cam-drin domestig a gostwng y nifer o weithiau y gelir yr heddlu allan a chost hir dymor cam-drin domestig. Mae'r grant ar gyfer cyflogau, hyfforddiant, marchnata, cyhoeddusrwydd, monitro, gwerthuso a chostau cyffredinol.
St Giles Trust	Cymru	£489,185	Bydd y prosiect yn darparu hyfforddiant Cyngor gan Gymheiriaid i bobl ar draws De Cymru sydd wedi wynebu anfantais sylweddol. Bydd y buddiolwyr yn derbyn hyfforddiant, gan gynnwys cwrs 'Dysgu Rhoi Cyngor' 12 wythnos modiwlaid, cefnogaeth un i un ar gyfer dysgwyr, lleoliadau gwirfoddoli a gefnogir, sgiliau TG, gweithdai datblygu proffesiynol a hyfforddiant cyflogaeth/chwilio am swyddi. Dros dair blynedd, bydd y grant yn talu am dair rôl Hyfforddi/Asesu, recriwtio, hyfforddi, monitro a gwerthuso, treuliau a chostau cyffredinol.

Arian Pawb a'i Le

Dyddiad embargo: 02/02/2018



The Mullany Fund	Cymru	£486,630	Bydd Cronfa Mullany yn ehangu eu prosiect e-fentora presennol i weithredu mewn ardaloedd newydd. Bydd ar gael trwy ysgolion a mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifainc anos eu cyrraedd, er mwyn ehangu cymryd rhan mewn proffesiynau gwyddor bywyd a chodi dyheadau a chyrraedd ad-dysgol ymysg pobl ifainc o gymunedau a dangynrychiolir sydd â lefelau symudedd cymdeithasol isel. Dros dair blynedd bydd y grant yn ariannu cyflogau, costau rhedeg y prosiect, costau cyffredinol a chyfarpar.
Sylfaen Cymunedol Cyf	Gwynedd	£232,368	Nod y prosiect yw cynnig gwasanaeth cyngor, eiriolaeth a chefnogaeth analiniedig, annibynnol, dwys ac uchel ei ansawdd i deuluoedd ar incwm isel sydd mewn perygl ac/neu'n bygwth dadgofrestru eu plentyn o gyfrifoldebau addysg yr awdurdod lleol. Dros dair blynedd bydd y grant yn ariannu cyflogau un gweithiwr prosiect rhan-amser newydd, costau recriwtio, llety, nwy a thrydan, cyllideb cyfranogwyr a chyfarpar TG.
Artis Community / Cymuned Limited	Rhondda Cynon Taf	£99,999	Bydd y prosiect yn darparu lle galw heibio diogel ym Mhontypridd ar gyfer rhieni ifainc a'u plant yn ardal Rhondda Cynon Taf. Bydd yn adeiladu sgiliau a hyder magu plant trwy weithdai, galluogi rhieni i siarad am faterion emosiynol a phersonol, darparu rhwydwaith cefnogol o gymheiriaid a gweithwyr proffesiynol, lleihau unigedd a galluogi cyfranogwyr i wneud dewisiadau gwybodus a dylanwadu ar wasanaethau. Dros dair blynedd bydd y grant yn ariannu ffioedd llawrydd, costau rhedeg y prosiect, costau cyffredinol a chyfarpar.

Arian Pawb a'i Le

Dyddiad embargo: 02/02/2018



Pembrokeshire People First	Sir Benfro	£95,952	Bydd y prosiect yn creu buddion ar gyfer pobl sy'n byw yn Sir Benfro y maent yn hunanddiffinio fel awtistig yn gweithredu ar lefel uchel - hynny yw sbectrwm amhwyllder awtistiaeth heb anabledd dysgu diffiniedig. Caiff ei arwain gan grŵp llywio o bobl sydd â'r cyflwr a bydd yn cyflwyno eiriolaeth un i un arbenigol, eiriolaeth dros gymheiriaid a rhaglen hyfforddi a anelir at wasanaethau statudol ac wedi'i arwain gan fuddiolwyr. Dros ddwy flynedd bydd y grant yn talu am gyflogau, costau cyflwyno'r prosiect a chyffredinol.
Sign and Share Club	Sir Benfro	£78,452	Bydd y prosiect yn estyn gwasanaethau i bobl fyddar o bob oedran yng ngogledd a de Sir Benfro, gan sefydlu cyfarfodydd newydd yn yr ardaloedd hyn a chynnal cyfarfodydd mewn cartrefi pan fydd angen. Hefyd, byddant yn darparu gwasanaeth trwsio a newid gwasanaeth batris cymhorthion clywed yn ogystal â gwella ymwybyddiaeth o fyddardod ymysg busnesau a darparwyr gwasanaeth lleol. Bydd y grant tair blynedd yn ariannu cyflogau a chostau rhedeg y prosiect.
Age Concern Torfaen	Torfaen	£324,209	Bydd y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer a Mind Blaenau Gwent a Thorfaen i ddarparu rhaglen gelfyddydau newydd ar gyfer pobl iau 45-65 oed sydd â namau gwybyddol a'u gofalwyr, i liniaru straen dementia sy'n dechrau'n gynnar. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys caffi cerameg, geiriau byw llafar rhydd, canu ac offerynnau cerdd, gwasanaeth gwybodaeth a chynghor a chwrsela dementia arbenigol. Dros dair blynedd bydd y grant yn ariannu cyflogau, costau rhedeg y prosiect a chyfarpar.

Arian Pawb a'i Le

Dyddiad embargo: 02/02/2018



Empower - Be The Change	Wrecsam	£246,008	Nod y prosiect yw cynnig gwasanaeth cyngor, eiriolaeth a chefnogaeth analiniedig, annibynnol, dwys ac uchel ei ansawdd i deuluoedd ar incwm isel sydd mewn perygl ac/neu'n bygwth dadgofrestru eu plentyn o gyfrifoldebau addysg yr awdurdod lleol. Dros dair blynedd bydd y grant yn ariannu cyflogau un gweithiwr prosiect rhan-amser newydd, costau recriwtio, llety, nwy a thrydan, cyllideb cyfranogwyr a chyfarpar TG.
-------------------------	---------	----------	--